# Rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion pan fyddwch yn rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill a ddarperir gan y gweithle. Mae hyn yn cynnwys hybu’r gwasanaethau a gynigir gan y gweithle, gwerthuso’r gallu i ddarparu gwasanaethau penodol ar gyfer unigolion, a phrosesu ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. darparu gwybodaeth gyfredol mewn fformatau hygyrch i gefnogi unigolion ac eraill i adolygu'r gwasanaethau y gall y gweithle eu darparu
2. cynnal rhwydweithiau a chysylltu ag eraill i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwasanaethau y gall y gweithle eu darparu
3. trefnu apwyntiadau ac ymweliadau ar gyfer unigolion ac eraill â'r gweithle
4. cefnogi unigolion ac eraill i nodi a thrafod y gwasanaethau sy'n ofynnol, brys y ceisiadau am wasanaeth, a gofyn cwestiynau
5. trefnu gwerthusiadau ar sail anghenion a risgiau
6. rhoi gwybodaeth i unigolion ac eraill am y broses werthuso a sut a phryd y bydd canlyniadau'r gwerthusiadau'n cael eu rhannu
7. gwerthuso ceisiadau i benderfynu a oes modd darparu gwasanaethau, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael
8. rhoi gwybod i unigolion ac eraill a oes modd i'r gweithle ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol, a thrafod yr opsiynau neu'r gwasanaethau eraill sydd ar gael
9. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi canlyniadau yn unol â'u dewisiadau a'u hanghenion
10. nodi a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau
11. nodi amserlenni, adnoddau a mewnbwn arbenigol ar gyfer darparu gwasanaethau, a chytuno arnynt
12. sefydlu systemau i gefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ynghylch ansawdd gwasanaethau, nodi arferion da, a'r newidiadau sy'n ofynnol
13. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gwasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill y gall y gweithle eu darparu
2. sut mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb
3. yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill sy'n hyblyg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn
4. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar geisiadau am wasanaethau ar gyfer unigolion
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar geisiadau am wasanaethau ar gyfer unigolion
6. dulliau o hybu'r gweithle a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig
7. sut mae trefnu a chydlynu ymweliadau â'r gweithle
8. sut mae paratoi a chefnogi ymweliadau llwyddiannus â'r gweithle
9. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth reoli cais am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
10. ffactorau i'w hystyried wrth dderbyn neu wrthod ceisiadau am wasanaethau
11. pam ei fod yn bwysig rhoi gwybod i unigolion ac eraill ar unwaith os na ellir darparu gwasanaethau, a gwneud hynny mewn ffordd sensitif
12. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
14. y gweithdrefnau, y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i brosesu ceisiadau sydd wedi cael eu derbyn neu eu gwrthod
15. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
16. sut mae nodi a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau
17. sut mae derbyn, monitro a gwerthuso adborth am wasanaethau
18. theorïau sy'n berthnasol i reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill

20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill
22. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth reoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD411 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Rheoli ceisiadau am wasanaethau iechyd, cymdeithasol neu wasanaethau gofal eraill, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |